


WYT TI AM YMUNO Â'R FYDDIN?



DEG PETH PWYSIG IAWN DYLET EU GWYBOD CYN YMUNO

1. Prif waith y fyddin yw YMLADD. Wyt ti yn barod i LADD POBL neu cael dy LADD?
2. Maen BERYGLUS i fod yn filwr. Heblaw am gael dy ladd gelli hefyd orffen gyda SALWCH, ANABLEDD neu TRAWMA .
3. Unwaith dy fod yn y fyddin mae hi yn anodd iawn i DDOD ALLAN.
4. Ond ambell waith mae'r fyddin yn DISWYDDO milwyr yn gynnar er mwyn arbed talu pensiwn llawn iddynt.
5. Wedi gadael mae hi'n ANODD BYW bywyd cyffredin eto ac mae llawer o gyn-filwyr yn DDI GARTREF.
6. Rhaid DILYN GORCHMYNION yn y fyddin. Ni fydd hawl gyda chi i'ch BARN EICH HUN.
7. Gallwch gael eich anfon i ymladd rhyfeloedd ANGYFREITHLON megis rhyfel Irac. Os ydych yn gwrthod cewch COURT-MARTIAL.
8. PEIDIWCH A DISGWYL cael yr OFFER i gyd pan fyddwch ei eisiau wrth ryfela. Mae METHIANT y fyddin yn gosod eich BYWYD MEWN PERYGL.
9. Ydych chi yn barod i BROFI'R FYDDIN? I fyw fel sardîn mewn barics ymhell o unman gyda lot o REOLAU a COSB am anufuddhau, gyda bwyd gwael. Gallwch gael eich BWLIO.
10. Os ydych am anturio, hwyl, pres a chymwysterau a gweld y byd NID OES RHAID I CHI YMUNO YN Y FYDDIN, Y LLYNGES NEU'R AWYRLU, mae yna ffyrdd eraill ar gael.

Mwy o fanylion oddi wrth:

Cymdeithas y Cymod, d/o 3 Tai Minffordd, Rhostryfan, Caernarfon, LL54 7NF

www.cymdeithasycymod.org.uk E-bost post@cymdeithasycymod.org.uk

Ar ôl ymuno â'r fyddin mi fydd yn rhy hwyr i ti ail-ystyried – nawr yw'r amser CYN ymuno i feddwl yn ofalus a wyt i yn barod i LADD person arall a derbyn y risg o GAEL DY LADD DY HUN.

"Cyn i ti ymuno â'r fyddin, rhaid i ti feddwl am hyn . Byddant yn dweud wrthot y cei di yrfa gan weld y byd. Ond nid fel yna y mae hi. Celwydd yw e i gyd, dim ond i gael di i ymuno. Cafodd Gordon ei anfon yn syth i ryfel ar ôl dim ond chwe mis o hyfforddiant. Yr unig ran o'r byd welodd Gordon oedd Irac. Nid yw hi yn werth colli bywyd mor ifanc."

Dyna ddywedodd Rose Gentle, mam Gordon Gentle a laddwyd ym Mehefin 2004 gan fom yn Basra.

"Pan mae pobl ifanc dan 18 oed yn ymuno â'r fyddin, gallant adael dim ond rhwng yr 2il a'r 6ed mis o wasanaeth. Wedyn rhaid iddynt aros tan eu bod yn 22. Nid oes modd iddynt brynu eu hunain allan. Ni allant gael eu diswyddo. Gosodir hwy yn y carchar am fod yn absennol heb ganiatâd."

AT EASE, Gwasanaeth Cyngori Milwyr a'u Teuluoedd.

"Cyfaddefodd y fyddin ddoe am y tro cyntaf fod pedwar milwr a ddarganfuwyd wedi eu saethu'n farw mewn barics yn Surry efallai wedi marw fel canlyniad i fwlio a diffyg gofal a goruchwyliaeth." Telegraph, Mawrth 5ed 2004.

"Dangosodd adroddiad gan y Swyddfa Awdit Genedlaethol fod milwyr Prydeinig wedi mynd i Irac heb offer angenrheidiol gan gynnwys gwisg i'w hamddiffyn rhag bwledi, arfau cemegol a biolegol a pethau hanfodol eraill megis esgidiau a dillad." Guardian, Ionawr 13eg 2004.

"Bu farw 606 o gyn-filwyr Rhyfel y Gwlff o afiechyd ac hawliodd 5933 pellach bensiwn rhyfel neu anabledd yn ôl Cymdeithas Genedlaethol Cyn-filwyr Rhyfel y Gwlff." Newyddion BBC, Chwefror 3ydd 2004.

"Rhoddir triniaeth greulon i filwyr newydd ei recriwtio yn ystod ei hyfforddiant gan fyddinoedd ar draws y byd. Mae'r unigolyn yn cael ei osod dan bwysau corfforol a meddyliol er mwyn ei dorri cyn ei ailadeiladu i'r patrwm mae'r fyddin ei eisiau. Mae'r milwyr newydd yn cael ei bwlio ac yn gorfod gwneud tasgiau hollol ddi-bwrpas gan gynnwys cerdded yn bell gan gario offer trwm." 'Design for a Life' gan Patrick Bateson and Paul Martin, Vintage 2000.

Mae **AT EASE** yn wasanaeth cyngori sydd am ddim ac yn gyfrinachol ar gyfer aelodau neu ddarpar aelodau o'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd

28 Commercial St, Aldgate East, London, E1 6LS

Tel: 020 7247 5164 (Sul 5-7pm yn unig)

www.atease.org.uk e-bost: atease@advisory.freeserve.co.uk

Cynhyrchwyd y daflen hon gan Cymdeithas y Cymod

d/o 3 Tai Minffordd, Rhostryfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7NF

www.cymdeithasycymod.org.uk e-bost post@cymdeithasycymod.org.uk